# Swydd Ddisgrifiad

## Swyddog Datblygu Busnes

### Trosolwg

Gyda degawd o brofiad o wasanaethu eu cleientiaid, cwmni Bla yw yn un o gwmnïau cyfieithu blaenllaw Cymru. Yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth cyfieithu, prawf ddarllen a golygu o'r radd flaenaf, mae tîm hynod weithgar y cwmni wedi llwyddo i sefydlu a chynnal enw da'r cwmni dros y blynyddoedd. Ymfalchïwn yn ein sylfaen gleientiaid sefydledig, eang sy'n parhau i ymestyn wrth i ni ehangu ein cynnig eto fyth i gleientiaid ledled y byd.

Oherwydd twf parhaus a phrysurdeb cynyddol, mae Bla yn dymuno penodi Swyddog Datblygu Busnes i gynorthwyo'r Swyddog Busnes Rhyngwladol yn adain fusnes y cwmni. Nodwn fod y gallu i siarad Cymraeg yn **hanfodol** ar gyfer y swydd hon.

### Prif Gyfrifoldebau a Thasgau'r Swyddog Datblygu Busnes

- Gweithio'n agos â'r Swyddog Busnes Rhyngwladol a chynorthwyo uned fusnes y cwmni
- Cynorthwyo gyda gwaith cyflwyno tendrau ar wahanol blatfformau cenedlaethol (rhoddir hyfforddiant os oes angen)
- Cynorthwyo gyda datblygu ymhellach ein gwasanaeth a'n darpariaeth ieithoedd tramor yn ein huned ieithoedd rhyngwladol (Bla$_2$), yn ogystal â'r ddarpariaeth Gymraeg a gynigir eisoes
- Ymwneud â'n cleientiaid presennol drwy gysylltu â nhw'n rheolaidd i sicrhau bod ein henw da yn cael ei gynnal a'n bod yn cryfhau ein perthynas â nhw
- Estyn allan i gleientiaid posibl/newydd er mwyn cyflwyno Bla/Bla$_2$, a gwneud argraff dda arnynt er mwyn ennill rhagor o waith a chleientiaid

- Ar y cyd â'r Swyddog Busnes Rhyngwladol, cyfrannu at ddatblygu a gweithredu strategaeth cyfryngau cymdeithasol Bla/Bla$_2$, gan gynyddu ein presenoldeb ar amrywiol gyfryngau cymdeithasol er mwyn cryfhau eto ein brand
- Meddwl am gynnwys a chreu cynnwys marchnata i hyrwyddo'r cwmni yn effeithiol, e.e. ein blog, cylchlythyr, cyfryngau cymdeithasol
- Bod yn llysgennad proffesiynol i'n brand a hyrwyddo enw da sefydledig y cwmni
- Mynychu cynadleddau, digwyddiadau a chyfarfodydd efo'r Swyddog Busnes Rhyngwladol
- Gwaith cynorthwyol cyffredinol arall mewn swyddfa brysur
- Cefnogi'r Swyddog Busnes Rhyngwladol i ofalu am agwedd weithredol Bla$_2$, gan gyfrannu syniadau ac awgrymiadau enillfawr

**Cymwysterau a Rhinweddau'r Swyddog Datblygu Busnes**

Yn y tabl isod, gweler amlinelliad o gymwysterau a rhinweddau'r ymgeisydd delfrydol ar gyfer y swydd hon. Byddwn yn llunio rhestr fer yn seiliedig ar fodloni'r rhain.

| **Cymwysterau** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Cymhwyster mewn pwnc yn ymwneud â busnes, cysylltiadau rhyngwladol neu farchnata, neu brofiad cyfwerth | ✓ | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Profiad o brosesau tendro a chyflwyno tendrau | | ✓ |
| Profiad o weithio mewn swyddfa/amgylchedd marchnata gyda'r gallu i hyrwyddo a datblygu gwasanaeth | | ✓ |
| **Sgiliau a Rhinweddau** | | |
| Sgiliau TG/gweinyddol cryf, yn cynnwys amrywiol gyfryngau cymdeithasol a chyfres *Microsoft* etc | ✓ | |
| Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ac yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ymdrin yn broffesiynol ac yn gyfforddus â staff a chleientiaid | ✓ | |

| | | |
|---|---|---|
| Agwedd gadarnhaol at waith ac yn dda am weithio dan bwysau | ✓ | |
| Unigolyn brwdfrydig, egnïol ac uchelgeisiol sy'n cael ei ysgogi drwy gyflawni targedau | ✓ | |
| Y gallu i barchu cyfarwyddyd a mwynhau gweithio mewn tîm, yn ogystal ag yn annibynnol | ✓ | |
| Yn gallu derbyn newid, a dysgu drwy weithio | ✓ | |
| Yn barod i droi at aelodau eraill o'r tîm i chwilio am gyngor ac arweiniad | ✓ | |
| Sgiliau trefnu datblygedig ac yn gallu blaenoriaethu llwyth gwaith yn annibynnol ac yn effeithiol | ✓ | |
| Unigolyn manwl a chydwybodol | ✓ | |
| Gwybodaeth/dealltwriaeth am gwmni cyfieithu | | ✓ |
| **Arall** | | |
| Trwydded yrru, lân y DU | ✓ | |
| Yn rhugl yn y Gymraeg | ✓ | |

## I wneud cais, neu am sgwrs anffurfiol

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd hon, a'ch bod yn credu y gallwch wneud cyfraniad gwerthfawr at ein cwmni, yna llenwch y ffurflen gais a'i hanfon at sylw:


**Alun Gruffydd, Cyfarwyddwr**

alun@bla-translation.co.uk

01248 725 730